

# Dirgelwch ein Llyw Olaf gan Meic Stephens

**Y**MHLITH y llyfrau prinnaf, a mwyaf dirgel, sydd ar fy silffoedd i mae *Llewelyn: A Tale of Cambria in Four Cantos*, a gyhoeddwyd gan G. H. Huttman yn y Military Press yng Nghalcutta ym 1838.

Prynais y gyfrol am swllt yn y siop lyfrau ail-law ar yr Ais yng Nghaerdydd ryw bryd yn y chwedegau. Nid oeddwn yn sylweddoli ar y pryd pa mor brin oedd y llyfr bach hwn, ond euthum i'r drafferth o gael ei rwymo mewn chwarter-lledr cain gan Lewis a Harris, Caerfaddon gynt. Ar un o'r tudalennau blaen mae rhyw *Private John Cariss o'r 1/13th Light Infantry* wedi torri ei enw tra yn filwr yn Fort William, Calcutta, ym 1863.

Cyhoeddwyd ail argraffiad gan J. Rodwell yn New Bond Street, Llundain, ym 1845, wedi ei gyflwyno 'To Lady Hall, of Llanover Park' gyda'r geiriau 'The following Tale of a Land whose lovely scenery and romantic associations are dearly prized by her, is by permission inscribed, in recollection of many happy hours spent in that beautiful country, and in her delightful society, by The Author.' Afraid dweud, mae'r awdur yn anhysbys.

Mae pob ymgais ar fy rhan wedi methu dod o hyd i enw yr awdur. Rwyf wedi ymweld â'r India Office Library and Records yn Llundain i holi am y Military Orphan Press, ond nid oedd y sefydliad hwnnw yn gallu taflu goleuni ar awduraeth y llyfr ac nid oedd copi yn ei gasgliadau.

Yr hyn sy'n taro darlennydd o Gymro yw bod y gerdd, sydd ymhell dros 2,500 o linellau odledig, gyda nodiadau helaeth, yn darlunio Llewelyn ap Gruffudd nid fel rebel yn erbyn Coron Lloegr ond fel arwr y Cymry sy'n brwydro dros ryddid ein gwlad. Mae'n hirwyntog ac yn flodeuog, yn null ei chyfnod, ond mae'n cynnwys nifer o ddisgrifiadau bywiog am ddeurder Ein Llyw Olaf.

Dyma paham y deuthum i'r casgliad mai Cymro oedd wedi ysgrifennu'r gerdd, gan obeithio ei hychwanegu at ganon llenyddiaeth Saesneg Cymru'r cyfnod, nes fy mod i'n clywed gan fy nghyfaill, Bryn Jones, llyfrbryf heb ei ail, bod copi o'r ail argraffiad yn Llyfrgell Dinas Caerdydd, a bod rhywun anhysbys wedi torri'r enw Stevens, Grace Buchanan ar y wyneb-ddalen.


Felly dyma fi'n mynd ati i holi pwy oedd Grace Buchanan Stevens. Deuthum o hyd iddi yn Boase: *Biographical Dictionary* (tud. 740) ac yn *The Gentleman's Magazine* (tud. 652, cyf. XLV cyfres newydd, Mehefin 1856). Merch ydoedd i Syr Colin Campbell, laird Auchenbrech yn swydd Argyle, a ganwyd hi yn 1786 neu 1787. Priododd tua 1810 ag Andrew Stevens, cyfreithiwr o Gaeredin, a bu farw yng nghartref ei mab-yng-nghyfraith yng Nghaerlŷr yn 1856. Treuliodd flynyddoedd ei phlentynod yng Nghymru a theithiodd yn helaeth yng Nghanada ar draul ei thad cyfoethog. Ond prin yw'r ffeithiau amdani: 'It was easy to see from her manners that she had moved in a superior sphere, and from her conversation that her mind had received the highest culture; but no allusion to the circumstances of her high birth, her elegant nurture, or her successful authorship, ever reached the ear of the stranger.'

Yn ôl y ddau gofnod, cyhoeddodd Mrs Stevens 'two or three novels' gan gynnwys *Llewellyn, or the vale of Plinlimmow* (3 gyf., 1818). Ond yn anffodus, nid oes sôn am unrhyw gerdd hirfaith. Felly, heb brawf, rwy'n gyndyn i gredu mai hi oedd awdur y gerdd yn ogystal â'r nofel. Nid oedd Llyfrgell Genedlaethol yr Alban yn gallu cadarnhau bod Mrs Stevens wedi ysgrifennu *Llewelyn, A Tale of Cambria* ac mae pob ymholiad yn y wasg ddysgedig wedi mynd heb ateb. Mae gan ein Llyfrgell

Genedlaethol gopi o'r ddau argraffiad ac mae copiau hefyd gan Lyfrgell Prifysgol Bangor a Llyfrgell Salisbury yng Nghaerdydd, ond ni wn am neb arall sy'n berchen ar gopi.

Os oes rhywun ymhlith darlennywyr Y *Casglwr* sy'n gwybod am y gerdd neu am yr awdur, buaswn yn ddiolchgar iawn pa bai'n cysylltu â mi. Dyma'r cyfeiriad:

190 Heol Don, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AU.



Wyneb-ddalen *Llewelyn: A Tale of Cambria in Four Cantos*.

## Cornel y Beirdd yng ngofal Dafydd Morris, Bethesda

### Drain

Yn gadarn, arfog ydynt, - a hanes  
Gyda'r hynaf iddynt;  
Croesbren, halen a helynt  
Gadd y gŵr a'u gwisgodd gynt.

### Ffoaduriaid

(*Chwalodd gwŵr lwyd nyth titw tomos las  
mewn bocs nythu roeddwn wedi ei wneud*)  
Bywyd a adnabuom, - a rhannwyd  
Un gyfrinach rhyngom;  
Yno'n drist, dwy galon drom,  
Ôl haels y rhyfel welsom.

Sgrialodd y gnawes greulon - yn chwil  
'Rôl chwala ymdrechion,  
Ac alltud yw'r rhai gwylltion  
O'u tŷ wedi gweithred hon.

### Gwanwyn

Yn oriau ei dnyerwch - y cread  
Sy'n creu aflonyddwch;  
Fe ddaw gan roi'i law ar lwch  
A'i urddas i'w droi'n harddwch.

### Henaint

Hir achwyn y mae'r rhychau, - yn rhedeg  
Fel rhwydi hyd ruddiau;  
Daw gwir grynedig eiriau  
Yno i ddwyn amseroedd iau.

### Y Machlud

Yn suo mae'r gynnes awel - a'r môr  
A'r marian yn dawel;  
Ac aur ar hyd y gorwel  
Ddaw i'r bae pan suddo'r bêl.

### Gweld

Mwynhad rydd dy lygadau, - yn y clawdd  
Y cei lwyd, oer liwiau;  
Wedyn tanlyd fywydau  
Dan Ei we yn sydyn wau.

### Y Ferlen Fynydd Gymreig

Yn hedd yr unigeddau - y mae hon  
Yn mynnu ei phrydau,  
A lle chwyth y lluwch weithiau,  
Yn bur hen deil i barhau.

### Nos

Y rhos heno sy' hynod, - a'i herwau'n  
Dwyn arian o'r gofod;  
Mewn du yn dawel mae'n dod  
I uno'r tylluanod.

Croesewir englynion gan aelodau. Y tro hwn rwy'n gosod dwy gystadleuaeth - llunio englyn llong a lleddf dan y teitl *Irac/Bush/Blair* a dannedd gosod. Cynigir £10 yr un am yr englynion buddugol.

## LLYFRYDDIAETH CYLCHGRONAU CYMREIG 1951-1900 Huw Walters

Dilyniant yw'r gyfrol hon i *Llyfryddiaeth Cylchgronau Cymreig 1735-1850*, a gyhoeddwyd gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru ym 1993. Y mae'r gwaith presennol, a gynullwyd gan Huw Walters, yn rhestru ac yn disgrifio'r cylchgronau Cymraeg a Chymreig a sefydlwyd yn ystod y blynyddoedd rhwng 1851 a 1900, sef cyfanswm o 577 o deitlau i gyd. Disgrifir yn fanwl bob cylchgrawn a gyhoeddwyd yng Nghymru, neu gylchgronau ac iddynt gysylltiadau Cymreig a gyhoeddwyd yn Lloegr, Taleithiau Unedig America, Awstralia, Patagonia a'r India. Cynrychiolir yma gyhoeddiadau crefyddol, dirwestol, llenyddol a dysgedig, cofnodolion ar gyfer plant a merched, yn ogystal â chylchgronau plwyf, capeli, eglwysi, ysgolion a cholegau.

Y llenyddiaeth gyfnodol hon yw un o'r ffynonellau pwysicaf o ddigon sydd ar gael i'n cynorthwyo i adnabod a deall Cymru a Chymry'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Hon oedd y ganrif fawr o safbwynt maint y cynnyrch, beth bynnag a ddywedir am ei ansawdd, a gobeithir y bydd i'r ail gyfrol hon, fel y gyntaf, brofi'n ddefnyddiol i efrydwy'r y bedwaredd ganrif ar bymtheg yng Nghymru.

Cyhoeddwyd gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru, Rhagfyr 2003  
ISBN: 1 86225 040 5 cxxiv + 501 tud.  
Clawr caled. Pris: £35.00